



Part of the
Enginuity Group

Llawlyfr Cymhwyster

EAL Diploma Lefel 2 mewn Peirianeg Ymarferol
Rhif y Cymhwyster: 610/0089/8 (C00/4490/5)

**I gael tystysgrif ddwyieithog ac i gael gafael ar ddeunyddiau Cymraeg,
cofrestrwch gan ddefnyddio'r cod llwybr: 610/0089/8W**

Rhifyn 1



Tabl Cynnwys

1.0	Gwybodaeth am EAL	2
2.0	Cyflwyniad i'r Cymhwyster	3
3.0	Strwythur y Cymhwyster	5
4.0	Y Ganolfan a Chymeradwyo'r Cymhwyster	7
5.0	Proffiliau a Gofynion	8
6.0	Asesu	12
7.0	Rheoli Ansawdd Asesiadau	16
8.0	Graddio	17
	Atodiad 1: Crynodeb/Crynodebau o'r Unedau	18
	Atodiad 2: Cofrestru ac Ardystio Dysgwyr	211

1.0 Gwybodaeth am EAL

Ers dros hanner can mlynedd, mae EAL wedi bod yn sefydliad dyfarnu arbenigol ar gyfer peirianeg, gweithgynhyrchu, gwasanaethau adeiladu a sectorau cysylltiedig. Mae ein cymwysterau, sydd wedi'u datblygu i'r safonau technegol uchaf, yn adlewyrchu anghenion rheoleiddio a diwydiant sy'n newid drwy'r amser. Rydym yn cefnogi darparwyr ein cymwysterau gyda lefel ddigymar o wasanaeth i sicrhau bod dysgwyr yn barod i gymryd y cam nesaf ar eu taith, boed hynny'n astudiaeth, yn brentisiaeth neu'n waith.

Drwy bartneriaethau'r diwydiant â chanolfannau a darparwyr hyfforddiant EAL, degawdau o brofiad yn cefnogi ein sectorau craidd, a'n rôl fel rhan o'r Grŵp Enginuity, rydym wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth heb ei ail o anghenion sgiliau cyflogwyr. O ganlyniad, mae atebion sgiliau EAL, gan gynnwys Asesiad Pwynt Terfyn prentisiaethau, Sicrhau Ansawdd Allanol a chymwysterau, yn cael eu parchu a'u dewis gan gyflogwyr i sicrhau buddion gyrfa go iawn gydol oes i'n holl ddysgwyr. Dyna pam, yn ystod y deng mlynedd diwethaf, fod 1.2 miliwn o bobl ledled y DU wedi dilyn cymwysterau EAL.

1.1 Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae EAL yn disgwyl i'w ganolfannau alluogi dysgwyr i gael mynediad cyfartal at hyfforddiant ac asesiad ar gyfer cymwysterau yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae rhagor o fanylion ar gael ym Mholisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth EAL:

<http://www.eal.org.uk/centre-support/centre-support/policies-and-important-documents>

1.2 Profiad Cwsmeriaid ac Adborth

Mae Profiad Cwsmeriaid yn rhan hanfodol o ymrwymiad EAL i chi. Nod EAL yw sicrhau bod pob cwsmer yn cael gwasanaeth effeithlon o ansawdd uchel. Mae gennym ddiddordeb mewn cael adborth bob amser, ac os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu adborth am ein cymwysterau, ein cynnyrch neu'n gwasanaethau, cysylltwch â'r tîm Profiad Cwsmeriaid:

Tîm Profiad Cwsmeriaid EAL

Ffôn: +44 (0)1923 652 400

E-bost: Customer.Experience@eal.org.uk

2.0 Cyflwyniad i'r Cymhwyster

Pam mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu?

Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu fel rhan o ymateb ehangach EAL i adolygiad y sector o gymwysterau a systemau cymwysterau mewn peirianeg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni a gyhoeddwyd gan Gymwysterau Cymru ym mis Hydref 2020. Gellir gweld crynodeb gweithredol drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.qualificationswales.org/media/6733/eame-exe-summary-eng-sept-2020.pdf>

Yn yr adolygiad hwn, mae Cymwysterau Cymru yn annog EAL a chyrrff/sefydliadau dyfarnu eraill i ddarparu cymhwyster ymarferol priodol ar gyfer ysgolion uwchradd sydd ar hyn o bryd yn cynnig Gweithrediadau Peirianeg Ymarferol (PEO) i ddysgwyr dan 16 oed. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gymwysterau a oedd yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed – y rhai a gymerwyd mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, ac fel rhan o raglenni prentisiaeth.

Mae EAL hefyd yn cydnabod rhinweddau'r adolygiad hwn o ran manteisio ar y cyfle i ystyried bod y deilliannau hefyd yn berthnasol i ddysgwyr o bob oed mewn amgylcheddau addysgol tebyg ar draws y gwledydd gwahanol (Lloegr a Gogledd Iwerddon).

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn a beth yw'r manteision?

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer unrhyw un o 14 oed sydd â diddordeb mewn datblygu sgiliau a gwybodaeth mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau peirianeg, boed hynny i ddechrau ar yrfa ym maes peirianeg drwy brentisiaeth ddilynol neu mewn sectorau eraill lle mae'r sgiliau a'r wybodaeth hynny'n drosglwyddadwy. Efallai y daw diddordeb gan y rheini sydd mewn addysg orfodol ar hyn o bryd (cyn-16) yn ogystal â'r rheini sydd wedi gadael addysg orfodol yn ddiweddar, ond nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn ogystal â'r rheini a allai fod yn ddi-waith am gyfnod hir ac sy'n ystyried ailhyfforddi neu gael gwaith a/neu brentisiaeth yn y sector peirianeg.

Beth mae'r cymhwyster hwn yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i'r dysgwr ddefnyddio dull ymarferol o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau peirianeg o ddewis, fel ffitio, weldio, gweithgynhyrchu haen-ar-haen ac ati, yn ogystal â chyflwyno dysgwyr i bynciau yng nghyd-destun amgylchedd peirianeg sy'n cynnwys iechyd a diogelwch, cyfathrebu, gweithio'n effeithiol a hawliau a chyfrifoldebau unigolion.

2.1 Achrediad a Chefnogaeth gan Ddiwydiant i'r Cymhwyster hwn

Mae'r cymhwyster hwn:

- yn cael ei reoleiddio ar Lefel 2
- yn cael ei gefnogi gan amrywiaeth o randdeiliaid yn y sector

2.1 Deunyddiau Cefnogi'r Cymhwyster

Mae'r deunyddiau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

- **Pecynnau cyflwyno:** sy'n cynnwys unedau'r cymhwyster, canllawiau perthnasol i diwtoriaid/aseswyr sy'n ymwneud â darparu ac asesu a chynlluniau marcio ar gyfer asesiadau ymarferol a/neu theori a asesir yn fewnol
- **Pecynnau asesu dysgwyr:** sy'n cynnwys unedau'r cymhwyster, gwaith ymarferol a asesir yn fewnol, rhestrau gwirio asesu a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer dysgwyr
- **Asesiadau o wybodaeth:** sy'n cynnwys asesiadau o wybodaeth y mae'n rhaid i'r dysgwr eu cwblhau

Mae modd i Ganolfannau sydd wedi cofrestru gydag EAL gael gafael ar yr holl ddeunyddiau eraill ar wefan EAL: <http://eal.org.uk/>

2.2 Cyflawni'r Cymhwyster

Bydd **Diploma Lefel 2 EAL mewn Peirianeg Ymarferol** yn cael ei ddyfarnu pan fydd y dysgwr wedi cwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- Tair uned orfodol

Yn ogystal â:

- Thair uned ddewisol yn unol â'r rheol cyfuno

I gael rhagor o wybodaeth am y Rheolau Cyfuno, gweler Adran 3.

Mae gan y cymhwyster hwn o leiaf 240 o Oriau Dysgu dan Arweiniad a 300 o Oriau Cymhwyso. Y math cyffredinol o radd ar gyfer y cymhwyster hwn yw **Pasio/Cyfeirio**.

Bydd y ganolfan wedyn yn gallu gwneud cais am dystysgrif y dysgwr unwaith y bydd wedi'i awdurdodi gan y swyddog sicrhau ansawdd mewnol.

Hawliadau Uned a/neu Hawliadau Llawn

Gall canolfannau wneud hawliadau am unedau unigol ar gyfer dysgwyr wrth iddynt gyflawni pob uned o'u cymhwyster ac ar ôl cwblhau a chyflawni pob uned, gallent gyflwyno cais am hawliad llawn, neu fel arall gall y ganolfan gyflwyno un cais 'hawliad llawn' pan fydd dysgwyr wedi cwblhau a chyflawni pob elfen o'u cymhwyster. Os bydd dysgwr yn gadael ei gwrs/rhaglen ran o'r ffordd drwy'r cymhwyster am unrhyw reswm (er enghraifft, os nad yw'n dymuno astudio tuag at y cymhwyster penodol hwnnw ar sail iechyd gwael neu amgylchiadau personol), bydd ganddo hawl i gael tystysgrif am unrhyw unedau o'r cymhwyster y mae wedi'u cwblhau a'u cyflawni hyd at y dyddiad hwnnw. Rhaid i ganolfannau wneud y ceisiadau penodol am hawliadau uned fel y bo'n briodol drwy wasanaethau ar-lein.

3.0 Strwythur y Cymhwyster

3.1 Rheolau Cyfuno

Bydd Diploma Lefel 2 EAL mewn Peirianeg Ymarferol yn cael ei ddyfarnu pan fydd y dysgwr wedi cwblhau tair uned orfodol yn llwyddiannus, yn ogystal â thair uned ddewisol o'r rhestr isod.

Mae gan y cymhwyster hwn isafswm oriau dysgu dan arweiniad (GLH) o **240** a Chyfanswm Oriau Cymhwyso o **300** awr. Mae gan bob uned 10 awr o ddysgu heb arweiniad.

Unedau Gorfodol: rhaid cwblhau'r tair uned:

Cod EAL	Teitl yr Uned	Lefel	Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH)	Cod Ofqual
WESK2/001	Iechyd a diogelwch mewn amgylchedd peirianeg	2	30	T/650/0383
WESK2/002	Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd peirianeg	2	30	Y/650/0384
WESK2/003	Perthnasoedd gwaith a hawliau a chyfrifoldebau unigolion mewn amgylchedd peirianeg	2	30	A/650/0385
Unedau Dewisol:				
Rhaid cwblhau tair o'r unedau canlynol:				
WESK2/004	Technegau drafftio CAD 2D ymarferol	2	50	D/650/0386
WESK2/005	Technegau ffitio â llaw ymarferol	2	50	F/650/0387
WESK2/006	Technegau cydosod mecanyddol ymarferol	2	50	H/650/0388
WESK2/007	Technegau turnio ymarferol â llaw	2	50	J/650/0389
WESK2/008	Technegau melino ymarferol â llaw	2	50	M/650/0390
WESK2/009	Technegau metel dalen a chydod ymarferol	2	50	R/650/0391
WESK2/010	Defnydd ymarferol o bren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill	2	50	T/650/0392
WESK2/011	Cydod cydrannau gwaith coed patrwm, model neu beirianeg yn ymarferol	2	50	Y/650/0393
WESK2/012	Defnydd ymarferol o gyfarpar arc-weldio metel â llaw	2	50	F/650/0396

WESK2/013	Defnydd ymarferol o offer arc-weldio TIG neu blasma â llaw	2	50	J/650/0398
WESK2/014	Defnydd ymarferol o offer arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG a chraidd fflwcs	2	50	Y/650/0400
WESK2/015	Gweithgynhyrchu haen-ar-haen ymarferol (argraffu 3D)	2	50	A/650/0401
WESK2/016	Modelu CAD 3D ymarferol	2	50	D/650/0402

Does dim cyfuniadau o unedau wedi'u gwahardd.

3.2 Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

Rhaid ystyried Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) EAL. Canllawiau penodol mewn perthynas â'r cymhwyster Diploma L2 mewn Peirianeg Ymarferol hwn:

- **NI DDYLID** defnyddio'r gwaith o gyflawni'r cymhwyster hwn, uned, unedau, neu feini prawf asesu sydd wedi'u cwblhau i achredu cyflawniad dysgwyr mewn perthynas â 'pherfformiad' tuag at uned, unedau galwedigaethol, neu gymhwyster galwedigaethol cyflawn e.e. Cymhwyster L2 mewn Perfformio Gweithrediadau Peirianeg.
- Lle bo'n berthnasol, gall fod yn dderbyniol Cydnabod Dysgu Blaenorol o ran agweddau mewn perthynas â 'gwybodaeth' o'r cymhwyster hwn tuag at uned neu unedau priodol o gymhwyster galwedigaethol wrth ymgymryd â hwy yn unol â pholisi RPL EAL.

4.0 Y Ganolfan a Chymeradwyo'r Cymhwyster

Bydd angen i ganolfannau sy'n dymuno cynnal y cymhwyster gydymffurfio â'r Llawlyfr Cymwysterau a meini prawf cydnabod canolfannau EAL ar gyfer y cymhwyster hwn. Rhaid i ganolfannau hefyd roi systemau gweinyddol ac adnoddau ffisegol a dynol priodol ar waith i gynnal y cymhwyster yn effeithiol.

Cyfeiriwch at Adran 5 i weld gofynion staff y ganolfan sy'n ymwneud â chyflwyno'r cymhwyster.

Er mwyn i ganolfannau presennol EAL roi'r cymhwyster ar gylch gwaith eich canolfan:

- Crëwch a llenwch ffurflen gais cymeradwyo cymhwyster yn Smarter Touch a'i chyflwyno i EAL.

Er mwyn i ganolfannau nad ydynt yn ganolfannau EAL gael caniatâd i gynnal y cymhwyster, cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid EAL:

Profiad Cwsmeriaid EAL

Ffôn: +44 (0)1923 652400

E-bost: customer.experience@eal.org.uk

5.0 Proffiliau a Gofynion

Rhaid i'r staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r cymhwyster hwn yn y Ganolfan fodloni'r gofynion yn yr adran hon.

5.1 Staff sy'n Gyfrifol am Gofrestru ac Ardystio Dysgwyr

Mae'n ofynnol i ganolfannau benodi aelod addas o staff sy'n gallu cymryd cyfrifoldeb dros gofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau, cyflwyno ceisiadau ar gyfer asesiadau i EAL, a derbyn gweithdrefnau asesu allanol (os yw hynny'n briodol). Efallai y byddant hefyd yn gyfrifol am wneud cais i EAL am dystysgrifau dysgwyr. Gall y rôl gael ei chyflawni gan yr un person sy'n ymgymryd â'r gwaith sicrhau ansawdd.

5.2 Staff Addysgu

Rhaid i staff addysgu feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- Y galwedigaethau sy'n cael eu cynnwys yn y cymhwyster hwn
- Strwythur a chynnwys y cymhwyster
- Y deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu y maent yn eu cyflwyno

Mae'n argymhelliad y bydd staff addysgu:

- Yn meddu ar ddwy flynedd o brofiad ym maes addysgu/hyfforddi
neu:
- Yn gweithio tuag at gymhwyster addysgu/hyfforddi priodol
neu:
- Yn meddu ar gymhwyster addysgu/hyfforddi priodol (e.e. Tystysgrif Addysg neu unedau hyfforddwr Dysgu a Datblygu)

5.3 Dysgwyr

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cymhwyster hwn; fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod gan y dysgwyr y potensial i ennill y cymhwyster. Rhaid i ddysgwyr gael y lefelau gofynnol o lythrennedd a rhifedd i gwblhau'r deilliannau dysgu a bodloni'r meini prawf asesu. Dylai canolfannau sicrhau bod dysgwyr sydd â gofynion penodol yn ymwybodol o gynnwys y cymhwyster a dylent gael pob cyfle i gwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus. Bydd EAL yn ystyried unrhyw awgrymiadau rhesymol ar gyfer, a gan, y rheini sydd ag anabledau a fyddai'n eu helpu i gyflawni'r deilliannau dysgu heb amharu ar y safonau angenrheidiol.

Cyfyngiadau oedran

Rhaid i ddysgwyr fod yn 14 oed o leiaf.

5.4 Aseswyr

RHAID i'r ganolfan roi enwau unrhyw athrawon, hyfforddwyr neu unigolion eraill fydd yn cynnal asesiad mewnol i EAL, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r rôl asesu.

Rhaid i Aseswyr Mewnol feddu ar:

- Wybodaeth a dealltwriaeth o'r meini prawf asesu y maent yn eu hasesu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythur, cynnwys ac elfennau asesu'r cymhwyster
- Deall y broses asesu

Mae'n argymhelliad y bydd staff sy'n cynnal asesiad:

- Yn meddu ar 2 flynedd o brofiad ym maes asesu (e.e. mewn amgylchedd addysgu/hyfforddi neu N/SVQ)
neu
- Yn gweithio tuag at gymhwyster asesu priodol, megis y 'Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth'
neu
- Feddu ar gymhwyster asesu priodol (fel yr uchod).

Dylai aseswyr sydd ag unedau 'D' neu 'A' hefyd fod â thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r safonau presennol ar gyfer aseswyr.

Sylwer: Rhaid i 'aseswyr ymgeisiol' sy'n gweithio tuag at eu cymwysterau asesydd a'r rheini nad oes ganddynt y 2 flynedd angenrheidiol o brofiad gael eu goruchwyllo gan asesydd cymwys. Rhaid i aseswyr ymgeisiol gael cynllun gweithredu clir ar gyfer ennill y cymhwyster asesu. Bydd cymeradwyaeth yr asesydd yn cael ei thynnu'n ôl os na fydd cymhwyster perthnasol wedi'i ennill o fewn 18 mis.

Datblygiad proffesiynol parhaus aseswyr

Rhaid diweddarau cymhwysedd galwedigaethol aseswyr yn rheolaidd a'i gadarnhau o bryd i'w gilydd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) drwy'r Ganolfan Asesu. Bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn gofyn am dystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer yr holl aseswyr cymeradwy yn y Ganolfan. Cyfrifoldeb pob asesydd yw canfod a defnyddio cyfleoedd ar gyfer DPP, megis cynadleddau'r diwydiant, mynediad at gylchgronau perthnasol, a digwyddiadau Cyrff Proffesiynol/Cymdeithasau Masnach, o leiaf yn flynyddol i wella ac uwchraddio eu datblygiad proffesiynol a'u gwybodaeth dechnegol. Mae'n hanfodol bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl gyfleoedd/achrediadau DPP o'r fath a'u bod yn darparu dystiolaeth o raeadru gwybodaeth dechnegol o'r fath a gwybodaeth am y diwydiant i'r holl gydweithwyr perthnasol.

5.5 Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Mae hyn yn ymwneud â staff sy'n ymgymryd â'r gwaith o sicrhau ansawdd asesu yn fewnol. RHAID i'r Ganolfan roi enwau unrhyw athrawon, hyfforddwyr neu unigolion eraill a fydd yn sicrhau ansawdd yn fewnol i EAL.

Mae'r broses sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Bydd y broses sicrhau ansawdd ar gyfer darparu ac asesu yn cynnwys arsylwi ar addysgu/darparu, arsylwi asesiadau ar gyfer gwybodaeth a gwaith ymarferol, trafodaeth athro/asesydd, cyfweild dysgwyr, samplu, a chadarnhau penderfyniadau asesu, dilysu bod cofnodion asesu wedi cael eu cwblhau'n gywir a bod y dystiolaeth yn ddilys, yn ddibynadwy, yn ddigonol ac wedi'i phriodoli i'r dysgwr yn ogystal â chael ei chyfeirnoddi'n ddigonol.
- Sicrhau bod safoni arferion asesu yn fewnol yn effeithlon ac effeithiol, gan gynnwys safoni tasgau asesu ymlaen llaw, gan gadarnhau eu bod yn rhoi digon o gyfle i'r dysgwr gael ei asesu yn erbyn y deilliannau dysgu a'r meini prawf a aseswyd
- Safoni asesiadau gwybodaeth ac ymarferol a gwblhawyd i sicrhau bod aseswyr wedi dyfarnu marc pasio yn gywir ac yn gyson i'r holl ddysgwyr
- Nid yw'r uchod yn rhestr gynhwysfawr; dylai unrhyw Ganolfan sy'n ansicr ynghylch gofynion a chyfrifoldebau sicrhau ansawdd, yn y lle cyntaf, gyfeirio at y canllawiau perthnasol sydd ar gael i Ganolfannau cydnabyddedig yn y llyfrgell 'dogfennau' ar Smarter Touch cyn cysylltu â Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol neu Gymedrolwr Allanol dynodedig eu Canolfan, e.e. 'EAL – ARWEINIAD – Gofynion Sicrhau Ansawdd' ac 'Arweiniad EAL ar Sicrhau Ansawdd'.

Rhaid i staff sicrhau ansawdd mewnol:

- Fod yn gyfarwydd â'r galwedigaeth/rolau y mae'r cymhwyster hwn yn ymdrin â hwy
- Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o strwythur a chynnwys y cymhwyster
- Deall y broses asesu a rôl sicrhau ansawdd

Hefyd rhaid i staff sicrhau ansawdd mewnol:

- Feddu ar brofiad o reoli ansawdd/sicrhau ansawdd **neu**
- Feddu ar gymhwyster priodol, fel y 'Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu yn Fewnol neu'r 'Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu yn Fewnol'

Dylai staff sicrhau ansawdd sydd ag unedau 'D' neu 'A' hefyd fod â thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r safonau presennol ar gyfer aseswyr.

Sylwer: Rhaid i 'sicrhawyr ansawdd mewnol ymgeisiol' sy'n gweithio tuag at eu cymwysterau sicrhau ansawdd a'r rheini nad oes ganddynt y 2 flynedd angenrheidiol o brofiad gael eu goruchwylio gan sicrhawr ansawdd mewnol cymwys. Rhaid i sicrhawyr ansawdd mewnol ymgeisiol fod â chynllun gweithredu clir ar gyfer cyflawni eu cymhwyster sicrhau ansawdd mewnol. Bydd cymeradwyaeth y sicrhawr ansawdd mewnol yn cael ei thynnu'n ôl os na fydd cymhwyster perthnasol wedi'i ennill o fewn 18 mis. Mae'n argymhelliad y dylai staff sicrhau ansawdd gael mynediad at 'arbenigedd galwedigaethol' perthnasol, a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu rôl sicrhau ansawdd yn briodol.

Datblygiad proffesiynol parhaus staff sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid diweddarau profiad galwedigaethol staff sicrhau ansawdd yn rheolaidd a'i gadarnhau o bryd i'w gilydd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) drwy'r Ganolfan Asesu. Bydd EAL yn sicrhau ansawdd hyn. Cyfrifoldeb pob aelod staff sicrhau ansawdd



mewnol yw canfod a defnyddio cyfleoedd ar gyfer DPP, megis cynadleddau'r diwydiant, mynediad at gylchgronau perthnasol, ac SCC a digwyddiadau Cyrff Proffesiynol/Cymdeithasau Masnach, o leiaf yn flynyddol i wella ac uwchraddio eu datblygiad proffesiynol a'u gwybodaeth dechnegol. Mae'n hanfodol bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl gyfleoedd/achrediadau DPP o'r fath a'u bod yn darparu tystiolaeth o raeadru gwybodaeth dechnegol o'r fath a gwybodaeth am y diwydiant i'r holl gydweithwyr perthnasol.

6.0 Asesu

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr elfennau asesu sydd wedi'u cynnwys yn y cymhwyster ac ar gyfer pob elfen:

- Pwy sy'n gyfrifol am osod a marcio'r elfen
- Sut mae ansawdd yr elfen yn cael ei sicrhau

Elfen asesu	Pennwyd gan:	Marcwyd gan:	Dull sicrhau ansawdd	
			Asesiad	Allanol
Marcwyd gan ganolfan asesiadau ymarferol / theorï	EAL	Canolfan	Cysoni parhaus o fewn y Ganolfan	Sicrhau ansawdd a monitro parhaus drwy ymweliadau Sicrhau Ansawdd/EM Allanol

1. Gweler Adran 6.5 Asesiadau Mewnol (Set EAL a Marcwyd gan Ganolfan).

Mae dadansoddiad yn dangos y gofynion asesu ar gyfer pob uned i'w weld yn y tabl isod:

Cod EAL	Teitl yr Uned	Dull Asesu
ESK/001	Iechyd a diogelwch mewn amgylchedd peirianeg	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/002	Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd peirianeg	Asesiad o wybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/003	Perthnasoedd gwaith a hawliau a chyfrifoldebau unigolion mewn amgylchedd peirianeg	Asesiad o wybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/004	Technegau drafftio CAD 2D ymarferol	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/005	Technegau ffitio â llaw ymarferol	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/006	Technegau cydosod mecanyddol ymarferol	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/007	Technegau turnio ymarferol â llaw	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/008	Technegau melino ymarferol â llaw	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/009	Technegau metel dalen a chydodol ymarferol	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/010	Defnydd ymarferol o bren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/011	Cydodol cydrannau gwaith coed patrwm, model neu beirianeg yn ymarferol	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/012	Defnydd ymarferol o gyfarpar arc-weldio metel â llaw	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/013	Defnydd ymarferol o offer weldio TIG neu arc-plasma â llaw	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan

WESK2/014	Defnydd ymarferol o offer arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG a chraidd fflwcs	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/015	Gweithgynhyrchu haen-ar-haen ymarferol (argraffu 3D)	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan
WESK2/016	Modelu CAD 3D ymarferol	Asesiad ymarferol a gwybodaeth wedi'i farcio gan y ganolfan

6.1 Amgylchedd Cyflawni

Rhaid addysgu/asesu elfennau ymarferol y cymhwyster hwn a chwblhau'r asesiadau ymarferol mewnol gan y dysgwr mewn amgylchedd gwarchodol addas ac NID yn y gweithle. Gyda golwg ar y cymhwyster hwn, byddai dehongliad EAL o amgylchedd gwarchod addas yn cynnwys:

- lle mae dysgwyr yn cael eu goruchwylio'n uniongyrchol ac,
- ardal ar wahân, wedi ei neilltuo i ffwrdd oddi wrth gynhyrchu arferol a phwysau gwaith sy'n caniatáu i'r peryglon gael eu lleihau i'r eithaf,
- amser addas i ddysgwyr ddatblygu lefel ddiogel ofynnol o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i'w cyflawni a'u dangos cyn dod i gysylltiad â pheryglon mewn amgylchedd diwydiannol.

Rhaid i'r amgylchedd cyflawni fod yn addas er mwyn lleihau'r risgiau i ddysgwyr cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, gan ddarparu adnoddau peirianeg priodol ar gyfer yr unedau sy'n cael eu cyflawni. Mae gweithdy penodol mewn Canolfan Hyfforddi, Ysgol neu Goleg yn debygol o ddarparu'r amgylchedd mwyaf priodol i'r dysgwyr gael eu goruchwylio a gweithio'n ddiogel. Rhagwelir y bydd yr hyn a ddysgir yn deillio o gymysgedd o sesiynau a addysgir, arsylwi ar arddangosiadau a gwneud gweithgareddau ymarferol.

Gellir dysgu elfennau gwybodaeth mewn ystafell ddosbarth neu amgylchedd tebyg arall neu drwy ddefnyddio technolegau dysgu o bell. Lle defnyddir dysgu o bell, rhaid parhau i arwain y ddarpariaeth, a rhoi cefnogaeth briodol i ddysgwyr. Er y gall rhywfaint o ddysgu ddigwydd o bell, rhaid i'r dysgwr gwblhau'r asesiadau ymarferol a mewnol o wybodaeth yn yr amgylchedd gwarchod.

Rhaid i ganolfannau/amgylcheddau cyflawni gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau lechyd a Diogelwch perthnasol.

6.2 Rheoli Dogfennau Cymwysterau

Pecynnau cyflwyno

Mae pecynnau cyflwyno yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i staff cyflwyno ei defnyddio fel cyfeirnod. Mewn perthynas â'r cymhwyster hwn, gellir rhannu elfennau o'r pecyn cyflwyno â'r dysgwr, ond rhaid cyfyngu hyn i'r deilliannau dysgu, y meini prawf asesu, y cyngor ar gyflwyno a'r fanyleb asesu i gynnwys cwmpas/ystod yr asesiad. Ni fydd unrhyw ran arall o'r pecyn cyflwyno, e.e. manylion unrhyw asesiad o wybodaeth, yn cael ei rhannu â'r dysgwr oherwydd gall gynnwys gwybodaeth gyfrinachol ar gyfer staff cyflwyno yn unig.

Pecynnau asesu dysgwyr ac asesiadau o wybodaeth (rheolaethau angenrheidiol)

Mae pecynnau asesu dysgwyr yn cynnwys cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â'r asesiad ymarferol a'r asesiad o wybodaeth. Bydd angen i ddysgwyr gael mynediad at y dogfennau hyn pan fyddant yn barod i gael eu hasesu. Dylai asesywyr roi pecynnau asesu'r dysgwr i'r dysgwr, ynghyd ag unrhyw dasg neu dasgau asesu ymarferol a luniwyd gan y Ganolfan sydd wedi cael eu datblygu ar sail y fanyleb asesu a ddarparwyd gan EAL. Rhaid i'r dogfennau hyn gael eu rheoli gan yr asesydd, ar yr amod eu bod yn cael eu rhoi i'r dysgwr pan fo angen ond nad ydynt yn cael eu cadw gan y dysgwr. Rhaid i'r asesydd a/neu'r swyddog sicrhau ansawdd mewnol gadw'r holl ddogfennau asesu yn yr amgylchedd gwarchod, oni nodir fel arall. Rhaid goruchwyllo dysgwyr yn briodol wrth gynnal yr asesiad ymarferol a'r asesiad o wybodaeth. Rhaid i lefel yr oruchwyliaeth fod yn ddigonol i ddiogelu iechyd a diogelwch y dysgwyr, a sicrhau bod y dystiolaeth a gynhyrchir yn cael ei phriodoli i'r dysgwr. Mae'r asesiadau gwybodaeth ar wahân i'r pecyn asesu dysgwyr, a bydd angen i ddysgwyr gael mynediad at y dogfennau hyn yn ôl yr angen pan fyddant yn barod i gael eu hasesu. Rhaid rheoli'r asesiadau gwybodaeth hyn yn yr un modd â'r pecynnau asesu dysgwyr.

Systemau a chofnodion electronig

Mae fersiynau geiriol rhyngweithiol o'r pecyn asesu dysgwyr ac asesiadau gwybodaeth ar gael drwy gyhoeddiadau ar-lein. Lle defnyddir system electronig i weinyddu fersiynau electronig y pecyn asesu dysgwyr a/neu'r asesiad o wybodaeth, rhaid i'r system a ddefnyddir weithredu gyda'r rheolyddion angenrheidiol yn yr un modd â'r hyn a ddisgrifir dan 'Pecynnau asesu dysgwyr ac asesu gwybodaeth' h.y. ni ddylid gadael dogfennau asesu gyda'r dysgwyr i gael mynediad atynt heb reolaeth ac ati. Rhaid i unrhyw system electronig sy'n cael ei defnyddio atal dysgwyr rhag rhannu dogfennau asesu heb eu hawdurdodi h.y. drwy e-bost ac ati. Lle defnyddir systemau electronig sydd â'r rheolyddion angenrheidiol, gellir llwytho i fyny neu ymgorffori tystiolaeth megis adroddiadau dysgwyr ac atebion asesiadau gwybodaeth a gwblhawyd yn y system.

Yn gyffredinol NI ystyrir bod systemau e-bortffolio yn briodol ar gyfer cyflwyno/gweinyddu asesiadau mewnol yn electronig. Gellir defnyddio systemau e-bortffolio i olrhain cyrhaeddiad dysgwyr, cofnodi canlyniadau asesu ac adborth. Gellir dyblygu/llwytho'r elfennau canlynol o'r pecynnau cyflwyno ac asesu dysgwyr i system e-bortffolio, pecyn cyflwyno: canlyniadau dysgu, meini prawf asesu, manyleb asesu i gynnwys cwmpas/ystod yr asesiad. Pecyn asesu dysgwyr: cofnod cyrhaeddiad ar gyfer yr asesiad gwybodaeth, manyleb asesu i gynnwys cwmpas/ystod yr asesiad, rhestr wirio asesu ar gyfer yr asesiad ymarferol ac adborth asesu.

Cyfrifoldeb y swyddog sicrhau ansawdd mewnol (SAM) yw gwirio swyddogaeth y system electronig ymlaen llaw a chytuno ar alluoedd y systemau o ran rheoli dogfennau cymwysterau cyn eu defnyddio am y tro cyntaf a sicrhau ansawdd yr hyn sydd wedi cael ei lwytho i fyny/ei osod drwy wirio eu bod yn gywir ac yn addas i'r diben.

Mewn perthynas â'r cymhwyster hwn, yn gyffredinol ni ddylid llwytho tystiolaeth i fyny i system e-bortffolio heb y rheolaethau angenrheidiol, ond gall gyfeirio at beth yw'r dystiolaeth a ble mae wedi'i lleoli. Os defnyddir systemau electronig neu e-bortffolio, rhaid i'r system allu cofnodi datganiadau dilysrwydd electronig y gellir eu harchwilio, cymeradwyaeth y dysgwr a'r asesydd neu'r hyn sy'n cyfateb iddo yn electronig.

6.3 Ailsefyll Asesiadau Mewnol (Ymarferol a Gwybodaeth)

Mae'n bosibl y bydd dysgwyr sy'n methu pasio (a gyfeirir) yn dilyn asesiad mewnol, yn cael eu hailasesu ar ôl cael adborth a chyfnod priodol o hyfforddiant wedi cael ei gynnal. Dim ond yn erbyn y meini prawf asesu perthnasol y cyfeiriwyd atynt y mae angen ailasesu'r dysgwr. Gall aseswyr osod tasgau a/neu gwestiynau priodol gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i ailasesu sgiliau a gwybodaeth y dysgwr. Rhaid cael tystiolaeth briodol o bob ailasesiad, a chadw cofnodion cyflawn.

6.4 Safoni Asesiadau Mewnol

Mae gan aelodau'r tîm sicrhau ansawdd mewnol yn y Ganolfan ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod asesu mewnol yn cael ei safoni. Dylent weithio gydag aseswyr i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser ac i sicrhau bod penderfyniadau asesu gan wahanol aseswyr yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy. Bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- Cwrdd ag aseswyr/tiwtor (yn unigol a gyda'i gilydd) drwy gydol y cwrs i drafod materion cysylltiedig â safoni a sicrhau ansawdd, a rhoi cymorth ac arweiniad iddynt lle bo angen
- Arsylwi aseswyr/tiwtor, a rhoi adborth iddynt i'w helpu i wella eu techneg asesu,
- Samplu tystiolaeth dysgwyr ar draws gwahanol grwpiau dysgwyr i sicrhau bod y safonau priodol wedi cael eu bodloni
- Trefnu i draws-farcio gwaith dysgwyr er mwyn cymharu canlyniadau a chytuno ar feincnodau

6.5 Asesiad Mewnol

Mae asesu mewnol yn cynnwys asesiadau ymarferol a/neu wybodaeth, sydd wedi'u cynllunio i asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr ar gyfer unedau unigol. Mae'r asesiad mewnol ar gyfer pob uned yn cael ei osod gan EAL a'i farcio gan aelodau'r tîm cyflwyno yn y Ganolfan. Bydd gofyn i ganolfannau ddyfeisio tasgau addas yn seiliedig ar y fanyleb asesu a ddarperir ym mhob uned lle bo hynny'n berthnasol.

Mae asesiadau mewnol yn cynnwys casglu a gwerthuso tystiolaeth sy'n dangos y cyflawnwyd y deilliannau dysgu ym mhob uned. Mae meini prawf marcio, rhestrau gwirio a deunyddiau eraill yn cyd-fynd â'r asesiadau mewnol i sicrhau bod y tîm cyflwyno yn gyson o ran eu dull o asesu. Mae'r asesiadau mewnol a'r rhestrau gwirio marcio/asesu cysylltiedig i'w gweld yn yr unedau unigol yn y pecynnau cyflwyno ac asesu dysgwyr. Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod asesiadau mewnol, ymarferol ac asesiad gwybodaeth, yn cael eu cwblhau dan oruchwyliaeth, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau asesu'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ddilys, ac yn ddibynadwy a bod y gwaith a gyflwynir i'w asesu gan ddysgwyr yn cael ei baratoi a'i gynhyrchu ganddynt yn annibynnol, heb gymorth gan eraill, a heb lèn-ladrad (y gellir ei briodoli i'r dysgwr).

Pan fydd asesiadau gwybodaeth ar ffurf cwestiynau ysgrifenedig/atebion byr, gall y dysgwyr gael eu goruchwylio gan y rheini sy'n bodloni'r gofynion asesu a nodir yn 5.4. Ni ddylid dyrannu unrhyw derfyn amser ar gyfer yr asesiadau; fodd bynnag, dylid cwblhau unrhyw asesiad ymarferol ac asesiad gwybodaeth o fewn yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a ddyrannir ar gyfer yr uned. Ni ddylid trin asesiadau gwybodaeth fel arholiadau ffurfiol ac nid oes unrhyw ofyniad i'r asesiadau gwybodaeth gael eu goruchwylio.

Rhaid asesu holl ganlyniadau dysgu'r cymhwyster. Er mwyn helpu i fodloni'r gofyniad hwn, cynghorir dysgwyr i greu llyfr log/portffolio lle gallent ffeilio a chyfeirio at dystiolaeth sy'n dangos eu cyflawniadau yn erbyn y deilliannau dysgu. Rhaid i ganolfannau hefyd gadw cofnod asesu ac adborth ar gyfer pob dysgwr, sy'n rhoi manylion y dystiolaeth a gafodd ei gwerthuso yn erbyn y deilliannau dysgu a'r adborth a roddwyd i'r dysgwr. Rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol. Mae rhagor o ganllawiau ar asesu ar gael ym mhecyn cyflwyno pob uned.

7.0 Rheoli Ansawdd Asesiadau

Mae dau brif weithgaredd lle mae EAL yn rhyngweithio â'r Ganolfan mewn perthynas â'r broses o Reoli Ansawdd Asesu Allanol ar gyfer y cymhwyster hwn, sef:

Cydnabyddiaeth: Pan fydd Canolfan yn penderfynu cynnig y cymhwyster, bydd Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol EAL yn sicrhau bod y Ganolfan wedi'i harfogi a'i pharatoi'n briodol ar gyfer cyflwyno ac asesu.

Ymgysylltu: Drwy gydol y gwaith parhaus o ddarparu'r cymhwyster, bydd EAL, drwy waith monitro SSAA a mecanweithiau eraill yn adolygu ansawdd a chysondeb asesu a sicrhau ansawdd mewnol ac yn argymhell camau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder.

Cydnabyddiaeth

Wrth roi cymeradwyaeth, bydd EAL, fel arfer drwy ei Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol, yn sicrhau bod y darpar Ganolfan:

- Yn bodloni unrhyw ofynion gweithdrefnol a bennir gan EAL
- Yn meddu ar adnoddau ffisegol a staff digonol a phriodol
- Yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch a/neu ofynion cydraddoldeb a mynediad perthnasol
- Yn meddu ar gynllun cadarn ar gyfer cyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd ar gyfer y cymwysterau (gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, y sgôp ar gyfer cynnwys cyflogwyr)

Efallai y bydd EAL yn penderfynu ymweld â'r Ganolfan i weld y dystiolaeth a ddarparwyd.

Ymgysylltu

Bydd EAL, drwy ddulliau Sicrhau Ansawdd Allanol a mecanweithiau eraill yn sicrhau'r canlynol:

- Mae strategaeth yn cael ei datblygu a'i defnyddio ar gyfer monitro'r ganolfan yn barhaus – bydd hon yn seiliedig ar asesiad risg gweithredol o'r Ganolfan, a bydd yn cynnwys manylion strategaeth samplu'r dysgwr, yr asesydd a'r swyddog sicrhau ansawdd mewnol a'r rhesymeg y tu ôl i hyn.
- Mae prosesau sicrhau ansawdd mewnol y Ganolfan yn effeithiol o ran asesu dysgwyr
- Mae canlyniadau asesiadau mewnol yn cael eu dilysu, drwy samplu, i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal
- Rhoddir sancsiynau i Ganolfan lle bo angen a chymau cywiro'n cael eu cymryd gan y Ganolfan ac yn cael eu monitro gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol
- Cynhelir adolygiadau o drefniadau archwilio allanol EAL



8.0 Graddio

Y graddau ar gyfer y cymhwyster hwn yw **PASIO** neu **GYFEIRIO**. Rhaid i ddysgwyr basio POB elfen asesu er mwyn dyfarnu'r cymhwyster. Os yw'r dysgwr yn cael ei gyfeirio ar gyfer unrhyw elfen, rhaid rhoi adborth i'r dysgwr er mwyn iddo allu deall y meysydd sgiliau, gwybodaeth neu ddealltwriaeth hynny lle mae angen dysgu a/neu ymarfer pellach.

Atodiad 1: Crynodeb/Crynodebau o'r Unedau

Cod Uned	Teitl
WESK2/001	Iechyd a diogelwch mewn amgylchedd peirianeg
<p>Gwybod beth yw'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol i fodloni rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch</p> <p>Gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer tân, damweiniau ac achosion brys</p> <p>Gwybod beth yw'r peryglon a'r risgiau mewn amgylchedd peirianeg a sut maen nhw'n cael eu nodi</p> <p>Gwybod sut i ddilyn gweithdrefnau ac arferion gweithio diogel</p>	
WESK2/002	Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd peirianeg
<p>Gwybod sut i gyfathrebu'n effeithiol mewn amgylchedd peirianeg</p> <p>Gwybod am y mathau o wybodaeth dechnegol sy'n cael ei defnyddio i gyfathrebu mewn amgylchedd peirianeg</p> <p>Gwybod sut mae cynllunio a pharatoi yn cefnogi bod yn effeithiol mewn amgylchedd peirianeg</p> <p>Gwybod a deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol</p> <p>Gwybod a deall pam fod adolygiadau perfformiad yn bwysig ar gyfer gweithio'n effeithiol</p>	
WESK2/003	Perthnasoedd gwaith a hawliau a chyfrifoldebau unigolion mewn amgylchedd peirianeg
<p>Gwybod sut mae agwedd yn dylanwadu ar ymddygiad</p> <p>Gwybod pa mor bwysig yw creu a chynnal perthynas waith dda</p> <p>Gwybod pa mor bwysig yw gweithio'n effeithiol mewn tîm</p> <p>Gwybod am y prif ddeddfau a rheolau statudol sy'n effeithio ar gyflogaeth</p> <p>Gwybod sut mae cyflogaeth yn rhan o strwythur gyrfa</p>	
WESK2/004	Technegau drafftio CAD 2D ymarferol
<p>Gwybod sut mae creu lluniadau peirianegol gan ddefnyddio technegau drafftio CAD 2D</p> <p>Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer cynhyrchu lluniadau peirianeg gan ddefnyddio technegau drafftio CAD 2D</p> <p>Gallu defnyddio technegau drafftio CAD 2D i greu lluniadau peirianyddol</p> <p>Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau drafftio CAD 2D</p> <p>Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau drafftio CAD 2D</p>	
WESK2/005	Technegau ffitio â llaw ymarferol
<p>Gwybod sut i gynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio technegau ffitio â llaw</p> <p>Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer gweithgareddau ffitio â llaw</p> <p>Gallu defnyddio technegau ffitio â llaw i greu cydrannau</p> <p>Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau ffitio â llaw</p> <p>Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau ffitio â llaw</p>	
WESK2/006	Technegau cydosod mecanyddol ymarferol
<p>Gwybod sut i gynhyrchu cydosodiadau mecanyddol</p> <p>Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer cynhyrchu cydosodiadau mecanyddol</p> <p>Gallu defnyddio technegau priodol i gynhyrchu cydosodiadau mecanyddol</p> <p>Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau cydosod mecanyddol</p> <p>Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau cydosod mecanyddol</p>	
WESK2/007	Technegau turnio ymarferol â llaw

<p>Gwybod sut mae paratoi a defnyddio turn llaw ar gyfer gweithrediadau turnio Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer defnyddio turn llaw ar gyfer gweithrediadau turnio Gallu defnyddio technegau priodol i gynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio turn llaw ar gyfer gweithrediadau turnio Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau turnio Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau turnio</p>	
WESK2/008	Technegau melino ymarferol â llaw
<p>Gwybod sut i baratoi a defnyddio peiriant melino â llaw Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer defnyddio peiriant melino â llaw Gallu defnyddio technegau priodol i gynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio peiriant melino â llaw Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau melino Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau melino</p>	
WESK2/009	Technegau metel dalen a chydosed ymarferol
<p>Gwybod sut mae creu cydrannau a chydodiadau metel dalen Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer gweithgareddau metel dalen Gallu defnyddio technegau priodol i greu cydrannau a chydodiadau metel dalen Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau metel dalen Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau metel dalen</p>	
WESK2/010	Defnydd ymarferol o bren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill
<p>Gwybod sut mae defnyddio pren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer defnyddio pren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill Gallu cynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio pren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill Gallu adfer yr ardal waith ar ôl gorffen defnyddio pren ar gyfer greu patrymau, gwneud modelau neu gymwyseddau peirianyddol eraill Gallu delio â phroblemau wrth ddefnyddio pren ar gyfer gwneud patrymau, gwneud modelau neu weithgareddau peirianyddol eraill</p>	
WESK2/011	Cydosed cydrannau gwaith coed patrwm, model neu beirianeg yn ymarferol
<p>Gwybod sut mae cydosod cydrannau gwaith coed patrwm, model neu beirianeg Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer cydosod cydrannau gwaith coed patrwm, model neu beirianeg Gallu cynhyrchu cydosodiadau gwaith coed patrwm, model neu beirianeg Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau cydosod Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau cydosod</p>	
WESK2/012	Defnydd ymarferol o gyfarpar arc-weldio metel â llaw
<p>Gwybod sut mae paratoi a defnyddio cyfarpar arc-weldio metel â llaw Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer defnyddio cyfarpar arc-weldio metel â llaw Gallu cynhyrchu uniadau wedi'u weldio gan ddefnyddio cyfarpar arc-weldio metel â llaw Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau arc-weldio metel â llaw Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau arc-weldio metel â llaw</p>	
WESK2/013	Defnydd ymarferol o offer weldio TIG neu arc-plasma â llaw

<p>Gwybod sut mae paratoi a defnyddio cyfarpar arc-weldio TIG neu blasma â llaw Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer defnyddio cyfarpar arc-weldio TIG neu blasma â llaw Gallu cynhyrchu uniadau wedi'u weldio gan ddefnyddio cyfarpar arc-weldio TIG neu blasma â llaw Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau arc-weldio TIG neu blasma â llaw Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau arc-weldio TIG neu blasma â llaw</p>	
WESK2/014	Defnydd ymarferol o offer arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG neu graidd fflwcs
<p>Gwybod sut mae paratoi a defnyddio cyfarpar arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG neu graidd fflwcs Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer defnyddio cyfarpar arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG neu graidd fflwcs Gallu cynhyrchu uniadau wedi'u weldio gan ddefnyddio cyfarpar arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG neu graidd fflwcs Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG neu graidd fflwcs Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau arc-weldio hanner awtomatig MIG, MAG neu graidd fflwcs</p>	
WESK2/015	Gweithgynhyrchu Haen-ar-haen Ymarferol (Argraffu 3D)
<p>Gwybod sut i gynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio technegau gweithgynhyrchu haen-ar-haen Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer cynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio technegau gweithgynhyrchu haen-ar haen Gallu cynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio technegau gweithgynhyrchu haen-ar-haen Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau gweithgynhyrchu haen-ar-haen Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau gweithgynhyrchu haen-ar-haen</p>	
WESK2/016	Modelu CAD 3D ymarferol
<p>Gwybod sut i greu modelau CAD gan ddefnyddio system CAD 3D Gallu paratoi a chynllunio ar gyfer greu modelau CAD gan ddefnyddio system CAD 3D Gallu creu modelau CAD gan ddefnyddio system CAD 3D Gallu adfer yr ardal waith ar ôl cwblhau gweithgareddau modelu CAD 3D Gallu delio â phroblemau wrth ymgymryd â gweithgareddau modelu CAD 3D</p>	

Atodiad 2: Cofrestru ac Ardystio Dysgwyr

Rhaid i ddysgwyr fod wedi cofrestru gydag EAL gyda chod sy'n ymwneud â'r cymhwyster – rhaid cwblhau hyn cyn yr asesiad. Mae modd cofrestru ac ardystio dysgwyr ar-lein ar wefan EAL www.eal.org.uk. Ar gyfer cofrestru ac ardystio ar bapur, defnyddiwch y ffurflenni priodol. Mae'r rhain ar gael ar wefan EAL. I gael arweiniad ar gofrestru ac Ardystio, darllenwch y Canllawiau i Ddefnyddwyr ar Gofrestru ac Ardystio.

I gofrestru'r dysgwr ar y cymhwyster/cod y llwybr a ddewiswyd:

Teitl y Cymhwyster	Llwybr	Cod
EAL Diploma Lefel 2 mewn Peirianeg Ymarferol	Lloegr	610/0089/8
EAL Diploma Lefel 2 mewn Peirianeg Ymarferol	Cymru	610/0089/8W



Part of the
Enginuity Group

Cyhoeddwyd gan:

EAL
Unit 2, The Orient Centre
Greycaine Road
Watford
Herts
WD24 7GP

© Excellence Achievement Learning Ltd 2022

Mae EAL wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg argraffu. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau EAL yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, ac mae'n cadw'r hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd.

Paratowyd y llawlyfr hwn fel adnodd y gellir ei lwytho i lawr. Gellir ei argraffu am ddim heb ganiatâd pellach gan EAL ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y sefydliad prynu'n unig ac nad yw'n cael ei gynnig i'w werthu mewn unrhyw fformat.